Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# DEDDF Y GYMRAEG AC ADDYSG (CYMRU) 2025

Datganiad o Fwriad y Polisi ar gyfer Is-ddeddfwriaeth sydd i'w gwneud o dan y Ddeddf hon

**Gorffennaf 2025**

# DEDDF Y GYMRAEG AC ADDYSG (CYMRU) 2025

# DATGANIAD O FWRIAD Y POLISI AR GYFER IS-DDEDDFWRIAETH

## Cyflwyniad

1. Mae'r ddogfen hon yn amlinellu'r bwriad polisi presennol ar gyfer yr is-ddeddfwriaeth y byddai gan Weinidogion Cymru y pŵer i'w llunio, neu y byddai dyletswydd arnynt eu llunio o dan ddarpariaethau Deddf y Gymraeg ac Addysg (Cymru) 2025 ('y Ddeddf').

2. Lluniwyd y Datganiad i gynorthwyo'r Senedd i graffu ar y Bil a basiwyd ar 13 Mai 2025. Fe'i diwygiwyd yn dilyn pasio'r Bil. Dylid ei ddarllen ar y cyd â'r Ddeddf, y Memorandwm Esboniadol a'r Nodiadau Esboniadol.

3. Manylir ar y weithdrefn Senedd ar gyfer pob pŵer yn Mhennod 5 y Memorandwm Esboniadol. Ni chaiff y manylion hynny eu hailadrodd yn y ddogfen hon. Mae'r rheswm a bennir ar gyfer defnyddio'r weithdrefn Senedd yn adlewyrchu '*Canllawiau Llywodraeth Cymru is-ddeddfwriaeth gweithdrefn gadarnhaol ddrafft neu negyddol y cynulliad'* *(Ebrill 2012)*

4. Wrth ddatblygu is-ddeddfwriaeth, bydd Llywodraeth Cymru yn gweithio'n agos gyda rhanddeiliaid ac yn cynnal ymgynghoriadau cyhoeddus, fel sy'n briodol er mwyn ceisio barn ar yr is-ddeddfwriaeth.

## Trosolwg o'r Ddeddf

5. Prif nod y Ddeddf hon yw ceisio sicrhau bod pob disgybl yn cyrraedd diwedd oedran ysgol gorfodol yn ddefnyddiwr Cymraeg annibynnol, o leiaf. Yn benodol, yr amcan yw i bob disgybl feithrin sgiliau llafar sydd gyfystyr â lefel B2, o leiaf, o'r Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd.

6. Yn gryno, mae'r Ddeddf:
   - yn rhoi sail statudol i'r targed o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050 drwy ei gwneud yn ofynnol i strategaeth y Gymraeg gynnwys targed o filiwn o siaradwyr Cymraeg, o leiaf, erbyn 2050, yn ogystal â thargedau eraill yn ymwneud â defnyddio'r iaith, gan gynnwys yn y gweithle ac yn gymdeithasol;
   - yn sefydlu dull safonol ar gyfer disgrifio gallu yn y Gymraeg ar sail lefelau cyfeirio cyffredin y Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd;
   - yn nodi bod tri chategori iaith statudol ar gyfer ysgolion ("Prif iaith – Cymraeg", "Dwy Iaith", a "Prif iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg"), ac yn

gwneud darpariaeth ynghylch dynodi'r categorïau iaith hynny, ynghyd â gofynion o ran isafswm yr addysg Gymraeg a ddarperir  a nodau dysgu Cymraeg sydd ynghlwm wrth y categorïau;

- yn cysylltu'r cynllunio ieithyddol a wneir ar lefel genedlaethol (drwy osod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg), ar lefel sirol (drwy osod dyletswydd ar awdurdodau lleol i lunio cynlluniau strategol lleol Cymraeg mewn addysg), ac ar lefel ysgol (drwy osod dyletswydd ar ysgolion i lunio cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg);
- yn sefydlu corff newydd, sef yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol, fydd yn gyfrifol am gefnogi pobl (o bob oedran) i ddysgu Cymraeg.

## RHAN 1 – HYBU A HWYLUSO DEFNYDD O'R GYMRAEG

| ADRAN | 3(1) a 3(3) |
|---|---|
| FFURF | Rheoliadau |

**DISGRIFIAD O'R RHEOLIADAU**

Mae'r ddyletswydd yn adran 3(1) a'r pŵer yn adran 3(3) yn galluogi Gweinidogion Cymru, trwy reoliadau, i bennu'r sail data ar gyfer cyfrifo nifer y siaradwyr Cymraeg at ddibenion adrannau 1 a 2 y Ddeddf. Mae cyfyngiad i'r pŵer i'r graddau:

- y bydd yn rhaid ystyried unrhyw ddata perthnasol sy'n deillio o gyfrifiad a gynhelir yn unol â Deddf Cyfrifiad 1920
- y bydd yn rhaid i'r sail data i gyfrifo nifer y personau 17 oed a throsodd sy'n siaradwyr Cymraeg fod ar sail hunanasesiad unigolion o'u gallu yn y Gymraeg
- y bydd yn rhaid i'r sail data i gyfrifo nifer y plant o dan 17 oed sy'n siaradwyr Cymraeg fod ar sail hunanasesiad o'u gallu yn y Gymraeg, neu asesiad gan riant neu ofalwr, neu unrhyw ddull arall a bennir gan Weinidogion Cymru drwy reoliadau. Caiff rheoliadau o'r fath hefyd bennu os yw'r dull hwnnw i'w ddefnyddio yn ogystal â'r asesiadau y cyfeirir atynt yn isadran (2)(b), yn lle'r asesiadau hynny.

**PAM Y MAE ANGEN Y PŴER/DYLETSWYDD?**

Rhoddir y ddyletswydd yn adran 3(1) a'r pŵer yn adran 3(3) i Weinidogion Cymru oherwydd bydd angen caniatáu hyblygrwydd i amrywio'r sail data ddefnyddir i gyfrifo siaradwyr Cymraeg e.e. i addasu i ddulliau newydd dros amser yn sgil datblygiadau mewn technoleg a dulliau casglu data.

Mae'r ddarpariaeth yn adran 3(3) yn rhoi disgresiwn i Weinidogion Cymru i bennu dull i gyfrifo nifer y plant o dan 17 oed sy'n siaradwyr Cymraeg, ac i bennu os yw'r dull hwnnw i'w ddefnyddio yn ogystal â'r asesiadau y cyfeirir atynt yn adran 3(2)(b), neu yn lle'r asesiadau hynny.

**BWRIAD POLISI – SUT Y BWREDIR DEFNYDDIO'R PŴER DIRPRWYIEDIG?**

Pan osodwyd targed strategaeth bresennol Gweinidogion Cymru, *Cymraeg 2050: miliwn o siaradwyr* yn 2017 i gyrraedd miliwn o siaradwyr, amlygwyd yr angen i ystyried sut mae diffinio 'siaradwr Cymraeg' a pha lefel o hyfedredd sy'n arwain at ymddygiad lle mae unigolyn yn debygol o ddefnyddio'r Gymraeg yn ddyddiol. Bwriedir defnyddio'r pwerau dirprwyedig hyn i ddarparu eglurder trwy reoliadau, ynghylch sut y bydd siaradwyr Cymraeg yn cael eu cyfrifo. Bydd hyn yn darparu eglurder ynghylch y targed yn strategaeth y Gymraeg o filiwn o siaradwyr erbyn 2050 a'r amryfal dargedau eraill yn y strategaeth ynghylch defnydd o'r Gymraeg.

Bwriad arall darpariaeth 3(3) yw cadarnhau'r egwyddor polisi cyfredol mai ar sail hunanasesiad y bydd niferoedd siaradwyr Cymraeg 17 oed a throsodd yn cael eu

cyfrifo. Oherwydd hynny mae canfyddiad unigolion yng Nghymru o’u sgiliau Cymraeg eu hunain (a’u plant) yn allweddol er mwyn mesur cynnydd tuag at wireddu targedau Cymraeg 2050.

Mae darpariaeth 3(1) yn cadarnhau bod y cyfrifiad yn parhau i fod yn ffynhonnell allweddol i roi’r wybodaeth i adrodd ar sgiliau Cymraeg pobl yng Nghymru ac i fesur cynnydd tuag at y targed miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050. Bwriedir defnyddio’r pwerau dirprwyedig hefyd i ystyried sut bydd modd cyrchu data o ffynonellau eraill am allu Cymraeg unigolion 17 oed a throsodd ar sail hunanasesiad, ac ystyried dulliau eraill ar gyfer casglu data am allu Cymraeg plant o dan 17 oed.

Mae cydberthynas rhwng y pwerau/dyletswyddau yn adran 3(1) a 3(3) a’r pwerau / dyletswyddau yn:

- adran 1 ynghylch gosod targedau yn strategaeth y Gymraeg
- adran 2 ynghylch adrodd ar y targedau yn strategaeth y Gymraeg o leiaf unwaith bob 5 mlynedd
- adran 3(4) ynghylch llunio a chyhoeddi canllawiau ar hunanasesiadau o dan 3(2)
- adran 3(5) ynghylch rhoi sylw i’r Cod ar ddisgrifio gallu yn y Gymraeg wrth lunio a chyhoeddi’r canllawiau dan 3(4)
- adran 3(6) ynghylch cymryd pob cam rhesymol i ystyried y canllawiau dan 3(4) wrth gasglu’r data dan 3(1) a chyflawni’r hunanasesiadau dan 3(2).

**GWYBODAETH BERTHNASOL ARALL**

Dim i’w nodi.

| ADRAN | 3(4) |
|---|---|
| **FFURF** | Canllaw |

**DISGRIFIAD O'R CANLLAW**

Mae'r ddarpariaeth yn adran 3(4) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio a chyhoeddi canllaw ar asesiadau i gynorthwyo unigolion i gwblhau hunanasesiadau, gan gynnwys asesiad rhiant neu ofalwr plentyn o dan 17 oed o'u gallu yn y Gymraeg. Bydd yn rhaid i Weinidogion Cymru roi sylw i'r Cod a lunnir o dan adran 6 wrth lunio'r canllaw.

**PAM Y MAE ANGEN Y PŴER/DYLETSWYDD?**

Rhoddir y ddyletswydd yn adran 3(4) i Weinidogion Cymru lunio a chyhoeddi canllawiau ar asesiadau er mwyn sicrhau dealltwriaeth glir ymhlith personau sy'n 17 oed a throsodd o ran sut y dylent hunanasesu eu gallu yn y Gymraeg, a sut yr asesir neu yr hunanasesir gallu yn y Gymraeg ar gyfer plant sydd o dan 17 oed.

**BWRIAD POLISI – SUT Y BWREDIR DEFNYDDIO'R PŴER DIRPRWYIEDIG?**

Y bwriad fyddai defnyddio'r ddarpariaeth i roi arweiniad, er mwyn darparu eglurder a chymorth i unigolion ynghylch sut i asesu neu hunanasesu gallu yn y Gymraeg. Gan fod rhaid rhoi sylw i'r Cod wrth lunio'r canllaw, bydd rhaid i'r Cod fod wedi ei greu cyn y gellir arfer y ddyletswydd hon.

Mae cydberthynas rhwng y ddyletswydd yn adran 3(4) a'r pwerau/dyletswyddau yn:

- adran 3(3) ynghylch rhoi disgresiwn i Weinidogion Cymru i bennu dull gwahanol neu ychwanegol i'r hyn sydd yn cael ei ddisgrifio ar wyneb y Ddeddf, pe bai angen hynny, i gyfrifo nifer y plant o dan 17 oed sy'n siaradwyr Cymraeg
- adran 3(5) ynghylch rhoi sylw i'r Cod ar ddisgrifio gallu yn y Gymraeg a lunnir dan 6(1) wrth lunio a chyhoeddi'r canllawiau dan 3(4)
- adran 3(6) ynghylch cymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod y canllawiau dan 3(4) yn cael eu hystyried wrth gasglu'r data dan 3(1) a chyflawni'r hunanasesiadau dan 3(2).

| GWYBODAETH BERTHNASOL ARALL |
| --- |
| Wrth gyhoeddi'r data cyntaf o Gyfrifiad 2021 am y Gymraeg, nododd y Prif Ystadegydd ym mis Rhagfyr 2022 y 'gall asesiad unigolyn o ba mor dda y mae'n siarad iaith fod yn oddrychol. I rai pobl, mae'r gallu i ddweud ambell air yn Gymraeg yn ddigon iddynt ddweud eu bod yn ei siarad. I eraill, er eu bod yn ei siarad yn rheolaidd, efallai mai dweud nad ydynt yn gallu ei siarad a wnânt os ydynt yn teimlo'n fwy cyfforddus yn siarad iaith arall.'<br><br>Amlygodd ei sylwadau yr angen i aeddfedu'r naratif ynghylch sut mae unigolion yn hunanasesu eu gallu yn y Gymraeg. Ychwanegodd ei bod 'yn glir o Arolwg Cenedlaethol Cymru bod 'nifer cynyddol o bobl sy'n gallu siarad *rhywfaint* o Gymraeg ac efallai bod dewis rhwng 'ydw' a 'nac ydw' pan ofynnir p'un a ydynt yn gallu siarad yr iaith yn arbennig o heriol i bobl sy'n siarad rhywfaint o Gymraeg'. Ymhellach, nododd fod hyn yn ffactor sy'n cyfrannu at y ffaith bod gwahanol ffynonellau data yn nodi gwahanol amcangyfrifon.<br><br>Mae'r sylwadau'n ategu'r angen am ganllaw i ddarparu eglurder a chymorth i unigolion ynghylch sut i hunanasesu eu gallu yn y Gymraeg. |

**RHAN 2 – DISGRIFIO GALLU YN Y GYMRAEG**

| **ADRAN** | 5(2) |
|---|---|
| **FFURF** | Rheoliadau |
| **DISGRIFIAD O'R RHEOLIADAU** | |
| Mae'r pŵer yn adran 5(2) yn caniatáu i Weinidogion Cymru, trwy reoliadau, ddiwygio'r Tabl yn Atodlen 1. Ni chânt ddefnyddio'r pŵer oni bai bod angen gwneud hynny mewn ymateb i newid a wneir i Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd. | |
| **PAM Y MAE ANGEN Y PŴER / DYLETSWYDD** | |
| Mae'n briodol dyrannu'r pŵer i Weinidogion Cymru oherwydd bod angen yr hyblygrwydd i fedru addasu'r Tabl yn Atodlen 1 y Ddeddf. | |
| **BWRIAD POLISI – SUT Y BWREDIR DEFNYDDIO'R PŴER DIRPRWYIEDIG?** | |
| Bydd y pŵer yn sicrhau bod modd i Weinidogion Cymru addasu cynnwys y Tabl yn Atodlen 1 os ystyrir bod hynny'n angenrheidiol, i sicrhau bod y mathau o ddefnyddiwr a'r lefelau cyfeirio cyffredin a'r disgrifiadau cyffredinol ohonynt, yn parhau i fod wedi ei seilio ar gynnwys Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd. | |
| **GWYBODAETH BERTHNASOL ARALL** | |
| Dim i'w nodi | |

| | |
|---|---|
| **ADRAN** | 6(1) i (3) a 7(1) a (2) |
| **FFURF** | Cod |

**DISGRIFIAD O'R COD**

Mae'r ddarpariaeth yn adran 6(1) i (3) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i lunio Cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg (y Cod) sy'n seiliedig ar Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd (CEFR). Bydd yn rhaid i'r Cod gynnwys esboniad ar sut i ddefnyddio'r chwe lefel cyfeirio cyffredin A1-C2 a geir yn y Tabl yn Atodlen 1 o'r Ddeddf ynghyd â disgrifiad o nodweddion penodol pob un o'r chwe lefel hynny.

Mae'r ddarpariaeth yn adran 7(1) a (2) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i gyhoeddi'r Cod, i'w adolygu o bryd i'w gilydd a'i ddiwygio fel sy'n briodol. Bydd yn rhaid iddynt ymgynghori ar gynnwys y Cod cyn ei gyhoeddi am y tro cyntaf, a chyn ei gyhoeddi bob tro y'i diwygir.

**PAM Y MAE ANGEN Y PŴER / DYLETSWYDD**

Mae'n briodol dyrannu'r dyletswyddau yn adran 6 a 7 i Weinidogion Cymru oherwydd bod angen cynnwys gwybodaeth gynhwysfawr a manwl yn y Cod ynghylch nodweddion penodol y lefelau cyfeirio cyffredin. Mae'r wybodaeth hon yn dechnegol ei natur a bydd angen arweiniad arbenigwyr i'w lunio.

Oherwydd ein bwriad y bydd y dull safonol newydd o ddisgrifio gallu yn y Gymraeg yn cael ei ddefnyddio'n gynyddol mewn gwahanol gyd-destunau, bydd angen hyblygrwydd i ddiweddaru'r Cod. Rhagwelir ei ddefnyddio, er enghraifft, fel sail i asesu sgiliau iaith; fel sail i ddarpariaeth gwricwlaidd dysgu Cymraeg i ddysgwyr dros oedran gorfodol; ac fel sail i ddarpariaeth adnoddau a chymwysterau.

**BWRIAD POLISI – SUT Y BWREDIR DEFNYDDIO'R PŴER DIRPRWYIEDIG?**

Bydd y ddarpariaeth yn arwain at greu un dull safonol ar gyfer disgrifio gallu yn y Gymraeg i ddarparu dealltwriaeth gyffredin ar draws gwahanol gyd-destunau dysgu Cymraeg, a hynny ar sail gydol oes yn hytrach na'r nifer o wahanol ddulliau a ddefnyddir ar hyn o bryd gan unigolion, ysgolion, darparwyr adnoddau a chymwysterau, cyflogwyr ac ati. Mae'r Ddeddf yn atgynhyrchu Tabl o Fframwaith Cyfeirio Cyffredin Ewropeaidd ar gyfer Ieithoedd Cyngor Ewrop (CEFR) yn Atodlen 1 sy'n darparu ar gyfer tri math o ddefnyddiwr Cymraeg a'r lefelau cyfeirio cyffredin ar gyfer y mathau hynny o ddefnyddiwr (mewn perthynas a'r Gymraeg). Bydd y Cod a lunnir ac a gyhoeddir o dan adrannau 6 a 7 yn alinio gyda'r Tabl hwn, ac yn ymhelaethu arno.

Ar gyfer y sector addysg, bwriad y ddarpariaeth yw esbonio'r lefelau cyfeirio cyffredin mewn rhagor o fanylder er mwyn darparu eglurder i randdeiliaid allweddol yn y sector. Bydd hyn yn ddefnyddiol, er enghraifft, i ddarparwyr adnoddau ddeall disgrifiadau manwl y lefelau cyfeirio, a sut y dylid adlewyrchu hynny mewn adnoddau addysgol.

Bydd hefyd yn darparu eglurder pellach i ysgolion ynghylch y nod dysgu sy'n berthnasol i'w categori iaith. Bydd y ddarpariaeth yn arwain at sefydlu un dull safonol fel sail i safoni adnoddau a deunyddiau addysgu, a bydd hefyd yn ddefnyddiol yng nghyd-destun trefniadau asesu at ddiben sicrhau cynnydd disgyblion tuag at gyflawni nod dysgu Cymraeg ysgol.

Yng nghyd-destun dysgu Cymraeg gydol oes, bwriad y ddarpariaeth yn y pen draw yw arwain at well ansawdd a chysondeb o ran y data sy'n cael eu casglu am niferoedd siaradwyr Cymraeg, boed hynny fel rhan o'r cyfrifiad neu fel arall, er mwyn cryfhau strwythurau i alluogi cynllunio ieithyddol cydlynol yng Nghymru i wireddu targedau strategaeth Cymraeg 2050. Y bwriad polisi yw y bydd rhwydd hynt ac anogaeth i weithleoedd fanteisio ar y dull safonol o ddisgrifio gallu yn y Gymraeg fydd yn cael ei sefydlu yn y Cod at ddibenion cynllunio i gynyddu defnydd o'r Gymraeg gan weithluoedd.

Bydd angen cyhoeddi'r Cod i ddisgrifio gallu yn y Gymraeg dan 7(1) fel un o'r camau cyntaf o ran rhoi'r Ddeddf ar waith. Mae cydberthynas rhwng y dyletswyddau yn adran 6(1) i (3) a 7(1) a (2) a'r pwerau/dyletswyddau yn:

- adran 3(4) ynghylch llunio a chyhoeddi canllawiau at ddiben cynorthwyo unigolion i gwblhau hunanasesiad o'u gallu yn y Gymraeg, a hefyd am rôl y canllawiau wrth gasglu data ynghylch nifer y siaradwyr Cymraeg (3(5)) .
- adran 4(1) ynghylch adolygu'r safonau a bennir o dan adran 26 o Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011 gyda golwg ar benderfynu a oes angen diwygio safonau penodol er mwyn adlewyrchu'r Cod.
- adran 4(2) ynghylch amserlen cwblhau'r adolygiad o'r safonau yn adran 4(1).
- adran 11(1) i (3) ynghylch nodau dysgu Cymraeg ar gyfer ysgolion categori "Prif Iaith – Cymraeg", "Dwy Iaith" a "Prif Iaith - Saesneg, rhannol Gymraeg" gan fod y nodau dysgu Cymraeg yn cyfeirio at ddefnyddwyr hyfedr/annibynnol/sylfaenol sy'n clymu at y lefelau cyfeirio cyffredin yn Atodlen 1. Mae adran 6(2) yn gosod dyletswydd i ddisgrifio nodweddion penodol pob lefel cyfeirio cyffredin yn y Cod.
- adran 11(6)(ii) ynghylch unrhyw ddarpariaeth bellach yn y Cod i egluro ystyr lefel cyfeirio gyffredin gan gynnwys rhyngweithio llafar ar lefel B2.
- adran 12(2) ynghylch gwneud trefniadau asesu drwy reoliadau o dan adran 56 Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021 at ddiben sicrhau cynnydd disgyblion tuag at gyflawni nod dysgu Cymraeg ysgol.
- adran 12(3) ynghylch sicrhau bod rhaid i Weinidogion Cymru wrth lunio y Cod Cynnydd o dan Ddeddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) 2021, ac wrth ei gadw o dan adolygiad, roi sylw i'r nodau dysgu Cymraeg a osodir gan adran 11 y Ddeddf (gan fod y nodau dysgu Cymraeg yn cyfeirio at ddefnyddwyr hyfedr/annibynnol/sylfaenol sydd ynghlwm â'r lefelau cyfeirio cyffredin yn Atodlen 1. Mae adran 6(2) yn gosod dyletswydd i ddisgrifio nodweddion penodol pob lefel cyfeirio cyffredin yn y Cod).
- adran 24(8)(b) ynghylch gosod targedau ar yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol i wella gallu yn y Gymraeg ymhlith pobl sydd dros oedran ysgol gorfodol.

| |
|---|
| • adran 25(1) ynghylch sicrhau bod hyfforddiant, datblygiad proffesiynol a chefnogaeth ar gael ar gyfer ymarferwyr addysg at ddiben gwella gallu yn y Gymraeg.<br>• adran 39(6)(b) ynghylch datblygu a chynnal cwricwlwm dysgu Cymraeg ar gyfer dysgwyr sydd dros oedran ysgol gorfodol sydd wedi ei seilio ar y Cod. |
| **GWYBODAETH BERTHNASOL ARALL** |
| Dim i'w nodi. |

**RHAN 3 – ADDYSG GYMRAEG**

| | |
|---|---|
| **ADRAN** | 9(3) |
| **FFURF** | Rheoliadau |
| **DISGRIFIAD O'R RHEOLIADAU** | |
| Mae'r pŵer hwn yn caniatáu i Weinidogion Cymru lunio rheoliadau i wneud darpariaeth ynghylch ysgolion sydd gyda mwy nag un categori iaith dynodedig. | |
| **PAM Y MAE ANGEN Y PŴER/DYLETSWYDD?** | |
| Mae adran 9(3) yn caniatáu i ysgolion ddynodi mwy nag un categori iaith. Mae'r adran hon yn adlewyrchu'r ffaith fod gan rhai ysgolion, yn enwedig ysgolion cynradd, fwy nag un ffrwd addysg (er enghraifft, ffrwd Gymraeg a ffrwd Saesneg).<br><br>Gan hynny, mae'r Ddeddf yn caniatáu dynodi mwy nag un categori os yw'n briodol. Y bwriad polisi yw manylu ar hyn drwy reoliadau. Bydd y manylder yma mewn rheoliadau oherwydd:<br><br>• Mae dynodi mwy nag un categori iaith i ysgol yn fater amlhaenog. Oherwydd lefel y manylder o ran pryd y mae'n briodol caniatáu i ysgolion ddynodi mwy nag un categori a phryd na ddylid gwneud hynny, mae'n briodol cynnwys hyn mewn rheoliadau yn hytrach nag ar wyneb y Ddeddf.<br>• Bydd angen ymgynghori'n ehangach gyda'r sector i glywed safbwyntiau'r sawl a fydd yn gweithredu'r polisi. | |
| **BWRIAD POLISI – SUT Y BWREDIR DEFNYDDIO'R PŴER DIRPRWYEDIG?** | |
| Bwriedir arfer y pŵer i lunio rheoliadau i wneud darpariaeth bellach am ddynodi mwy nag un categori iaith i ysgolion erbyn i'r categorïau statudol ddod i rym. Bydd hyn yn darparu eglurder i ysgolion wrth ddynodi eu categori iaith yn y lle cyntaf o fewn eu cynllun cyflawni addysg Gymraeg, ac yn darparu eglurder i awdurdodau lleol wrth gymeradwyo'r categori iaith.<br><br>Mae'n debygol y bydd Gweinidogion Cymru yn gwneud gwaith ymgysylltu pellach gydag ysgolion ac awdurdodau lleol i sicrhau bod cyd-ddealltwriaeth ynghylch pryd y mae'n briodol dynodi mwy nag un categori iaith ac effaith hynny ar y darpariaethau yn Rhan 3. | |
| **GWYBODAETH BERTHNASOL ARALL** | |
| Dim i'w nodi. | |

| | |
|---|---|
| **ADRAN** | 10(3) |
| **FFURF** | Rheoliadau |
| **DISGRIFIAD O'R RHEOLIADAU** | |
| Pŵer i Weinidogion Cymru lunio rheoliadau i ddiwygio'r isafswm ar gyfer unrhyw gategori iaith a bennir yn adran 10(2). Ni chaniateir i'r isafswm fod yn llai na 80% ar gyfer y categori "Prif Iaith – Cymraeg", 50% ar gyfer y categori "Dwy Iaith", a 10% ar gyfer y categori "Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg". | |
| **PAM Y MAE ANGEN Y PŴER/DYLETSWYDD?** | |
| Mae'r pŵer yma yn rhoi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru addasu isafsymiau'r categorïau ymhen amser os yw hynny'n briodol (ond nid yn llai na'r isafsymiau a nodir uchod). | |
| **BWRIAD POLISI – SUT Y BWREDIR DEFNYDDIO'R PŴER DIRPRWYEDIG?** | |
| Nid oes bwriad gan Weinidogion Cymru i ddefnyddio'r pŵer hwn yn y dyfodol agos. Yn unol ag adran 10(4) bydd rhaid i Weinidogion benderfynu a ydynt am arfer y pŵer i wneud rheoliadau o dan adran 10(3) mewn perthynas â'r categori "Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg" o fewn cyfnod o 5 mlynedd sy'n dechrau drannoeth y diwrnod y daw adran 10 i rym, ac wedi hynny, o fewn cyfnod o 5 mlynedd sy'n dilyn eu penderfyniad diwethaf. Wrth wneud y penderfyniad i arfer y pŵer yn 10(3), o dan adran 10(5), bydd rhaid ystyried effaith debygol yr isafsymiau ar gyflawni targedau strategaeth y Gymraeg yn unol ag adran 1. | |
| **GWYBODAETH BERTHNASOL ARALL** | |
| Dim i'w nodi. | |

| | |
|---|---|
| **ADRAN** | 11(2)(b), 11(3)(b), 11(3)(c), 11(5) |
| **FFURF** | Rheoliadau |
| **DISGRIFIAD O'R RHEOLIDAU** | |
| 11(2)(b): Pŵer i Weinidogion Cymru lunio rheoliadau i bennu grŵp blwyddyn mewn blwyddyn ysgol lle mai'r nod dysgu Cymraeg ar gyfer y grŵp blwyddyn hwnnw a'r grwpiau blwyddyn sy'n dilyn mewn ysgolion categori "Dwy Iaith" yw bod disgyblion yn ddefnyddwyr Cymraeg annibynnol (hynny yw yn cyrraedd lefel cyfeirio gyffredin B1 neu B2) ac yn cyrraedd lefel cyfeirio gyffredin B2 o ran rhyngweithio ar lafar, o leiaf, erbyn iddynt beidio â bod o oedran ysgol gorfodol.<br><br>11(3)(b): Pŵer i Weinidogion Cymru lunio rheoliadau i bennu grŵp blwyddyn mewn blwyddyn ysgol lle mai'r nod dysgu Cymraeg ar gyfer y grŵp blwyddyn hwnnw a'r grwpiau blwyddyn sy'n dilyn mewn ysgolion categori "Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg" yw bod disgyblion yn ddefnyddwyr Cymraeg annibynnol (hynny yw yn cyrraedd lefel cyfeirio gyffredin B1 neu B2), o leiaf, erbyn iddynt beidio â bod o oedran ysgol gorfodol.<br><br>11(3)(c): Pŵer i Weinidogion Cymru lunio rheoliadau i bennu grŵp blwyddyn mewn blwyddyn ysgol lle mai'r nod dysgu Cymraeg ar gyfer y grŵp blwyddyn hwnnw a'r grwpiau blwyddyn sy'n dilyn mewn ysgolion categori "Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg" yw bod disgyblion yn ddefnyddwyr Cymraeg annibynnol (hynny yw yn cyrraedd lefel cyfeirio gyffredin B1 neu B2) ac yn cyrraedd lefel cyfeirio gyffredin B2 o ran rhyngweithio ar lafar, o leiaf, erbyn iddynt beidio â bod o oedran ysgol gorfodol. | |
| **PAM Y MAE ANGEN Y PŴER/DYLETSWYDD?** | |
| Mae'r pwerau hyn yn debyg i'w gilydd yn yr ystyr eu bod yn cynnwys pwerau i lunio rheoliadau ynghylch uwchraddio'r nodau dysgu mewn ysgolion categori "Dwy Iaith" ac mewn ysgolion categori "Prif Iaith – Saesneg, rhannol Gymraeg".<br><br>Mae'n briodol bod y grwpiau blwyddyn mewn blwyddyn ysgol yn cael eu pennu mewn rheoliadau er mwyn rhoi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru wneud hynny pan fo amodau yn caniatáu mewn ymateb i ddatblygiadau mewn capasiti gweithlu, adnoddau, a'r cynnydd a wneir wrth gydymffurfio â'r categorïau statudol. | |
| **BWRIAD POLISI – SUT Y BWREDIR DEFNYDDIO'R PŴER DIRPWYEDIG?** | |
| Y bwriad polisi yw arfer y pŵer i wneud y rheoliadau hyn pan fo amodau yn caniatáu megis mewn ymateb i ddatblygiadau mewn capasiti gweithlu, adnoddau, a'r cynnydd a wneir wrth gydymffurfio â'r categorïau statudol.<br><br>Yn unol ag adran 11(5), bydd rhaid i Weinidogion Cymru, wrth ystyried y blynyddoedd ysgol a'r grwpiau blwyddyn sydd i'w pennu yn y rheoliadau hyn, roi sylw i effaith | |

| |
|---|
| debygol y nodau dysgu ar gyflawni'r targedau a bennir gan strategaeth y Gymraeg yn unol ag adran 1. |
| **GWYBODAETH BERTHNASOL ARALL** |
| Dim i'w nodi. |

| | |
|---|---|
| **ADRAN** | 13 |
| **FFURF** | Rheoliadau |
| **DISGRIFIAD O'R RHEOLIADAU** | |
| Mae adran 13 yn rhoi'r pŵer i Weinidogion Cymru lunio rheoliadau i wneud darpariaeth bellach am gategorïau iaith ysgolion. | |
| **PAM Y MAE ANGEN Y PŴER/DYLESTWYDD?** | |
| Rhoddir pŵer i lunio rheoliadau o dan adran 13 i Weinidogion Cymru i wneud darpariaeth bellach am gategorïau iaith ysgolion er mwyn eu galluogi i ymateb i unrhyw ddatblygiadau nas rhagwelir ar adeg pasio'r Ddeddf. | |
| **BWRIAD POLISI – SUT Y BWREDIR DEFNYDDIO'R PŴER DIRPRWYEDIG?** | |
| Bwriedir arfer y pŵer hwn os oes angen gwneud darpariaeth bellach am gategorïau iaith ysgolion. Gallai hynny fod mewn ymateb i reoliadau eraill a gaiff eu llunio yn yr un maes i sicrhau bod y categorïau iaith yn parhau'n gyfredol a chydnaws gyda darpariaethau eraill. | |
| **GWYBODAETH BERTHNASOL ARALL** | |
| Dim i'w nodi. | |

| | |
|---|---|
| **ADRAN** | 14(2)(b)(vi) |
| **FFURF** | Rheoliadau |
| **DISGRIFIAD O'R RHEOLIADAU** | |
| Mae adran 14(2)(b)(vi) yn caniatáu i Weinidogion Cymru ychwanegu personau y mae'n rhaid i gorff llywodraethu ysgol ymgynghori â hwy wrth lunio eu cynllun cyflawni addysg Gymraeg. | |
| **PAM Y MAE ANGEN Y PŴER/DYLETSWYDD?** | |
| Ni ragwelir pryd y bydd angen arfer y pŵer hwn i lunio rheoliadau i ychwanegu ymgynghorai i'r cynlluniau cyflawni ar hyn o bryd, ond mae wedi ei gynnwys er mwyn sicrhau bod y Ddeddf yn parhau'n gyfredol. | |
| **BWRIAD POLISI – SUT Y BWREDIR DEFNYDDIO'R PŴER DIRPWYEDIG?** | |
| Er na ragwelir defnyddio'r pŵer hwn yn y tymor byr, gallai fod yn briodol ychwanegu ymgynghorai i'r cynlluniau cyflawni os, er enghraifft, caiff corff newydd ei sefydlu sydd â buddiant yng nghynlluniau cyflawni ysgolion, neu os daw person arall i'r amlwg y mae'n briodol eu hychwanegu at y rhestr o ymgynghoreion yn adran 14(2)(b). | |
| **GWYBODAETH BERTHNASOL ARALL** | |
| Dim i'w nodi | |

| ADRAN | 14(3)(a), 14(4)(a)-(b) |
|---|---|
| **FFURF** | Rheoliadau |
| **DISGRIFIAD O'R RHEOLIADAU** | |
| 14(3)(a): Mae adran 14(3)(a) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru i bennu'r flwyddyn ysgol pan fydd cyfnod y cynllun cyflawni cyntaf yn dechrau.<br><br>14(4)(a)-(b): Mae adran 14(4)(a)-(b) yn caniatáu i Weinidogion Cymru lunio rheoliadau i ddiwygio hyd y cyfnod y mae cynlluniau cyflawni i gael effaith, ac i wneud darpariaeth am ffurf a chynnwys cynlluniau cyflawni. | |
| **PAM Y MAE ANGEN Y PŴER/DYLETSWYDD?** | |
| Rhoddir y pŵer yn adran 14(3)(a) i sicrhau bod eglurder o ran pryd y daw holl ofynion y cynlluniau cyflawni a nodir yn adran 14 o'r Ddeddf yn weithredol. Mae'n briodol rhoi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru bennu'r flwyddyn ysgol drwy reoliadau er mwyn sicrhau bod y cynlluniau yn dechrau ar ôl i elfennau eraill allweddol o'r Ddeddf ddod yn weithredol. Er enghraifft, mae adran 14(2)(a) yn ei gwneud yn ofynnol i gorff llywodraethu roi sylw i gynllun strategol lleol Cymraeg mewn addysg yr awdurdod lleol. Felly, mae'n rhaid i'r cynlluniau strategol lleol hynny gael effaith cyn y gellir llunio'r cynlluniau cyflawni.<br><br>Mae'r pwerau yn adran 14(4)(a)-(b) yn diogelu'r Ddeddf ar gyfer y dyfodol os daw'n amlwg bod angen diwygio hyd y cynlluniau cyflawni. Mae'r pŵer hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i fod yn fwy rhagnodol am ffurf a chynnwys y cynlluniau cyflawni (yn ychwanegol at fanylion y cynlluniau cyflawni sydd wedi eu manylu ar wyneb y Ddeddf yn adran 14). Gallai hyn fod yn ddefnyddiol wrth sicrhau unffurfedd cynlluniau cyflawni ysgolion a sicrhau bod yr hyn a fewnbynnir iddynt yn fuddiol. | |
| **BWRIAD POLISI – SUT Y BWREDIR DEFNYDDIO'R PŴER DIRPRWYEDIG?** | |
| Bwriedir arfer y pŵer yn adran 14(3)(a) er mwyn nodi cyfnod y cynllun cyflawni cyntaf. Dylid nodi bod adran 15(2) yn darparu bod rhaid i'r corff llywodraethu gyflwyno drafft o'r cynllun cyflawni i'r awdurdod lleol 9 mis cyn dechrau'r cyfnod y mae'n cael effaith amdano. Rhaid i gamau eraill gael eu cymryd yn gyntaf cyn y bydd yn briodol i'r cynlluniau cyflawni cyntaf gael effaith.<br><br>Nid oes bwriad ar hyn o bryd i arfer y pŵer yn adran 14(4)(a), ond gallai fod yn ddefnyddiol diwygio hyd y cynlluniau cyflawni os bernir bod eu cyfnod yn rhy fyr neu'n rhy hir.<br><br>Gallai'r pŵer yn adran 14(4)(b) gael ei ddefnyddio i sicrhau bod eglurder ymhlith cyrff llywodraethu ynghylch yr hyn y dylai cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg ei gynnwys, | |

| |
|---|
| ac i awdurdodau lleol wrth iddynt fynd drwy'r broses o wirio'r cynlluniau a'u cymeradwyo. |

| **GWYBODAETH BERTHNASOL ARALL** |
|---|
| Dim i'w nodi. |

| | |
|---|---|
| **ADRAN** | 15(4)(c), 16(6)(c) |
| **FFURF** | Cyfarwyddyd |
| **DISGRIFIAD O'R CYFARWYDDYD** | |
| Mae adran 15(4)(c) yn rhoi pŵer i awdurdodau lleol wrthod y cynllun cyflawni a gyflwynir iddo gan gorff llywodraethu ysgol, a rhoi cyfarwyddyd iddo ailystyried y cynllun cyflawni.<br><br>Mae adran 16(6)(c) yn rhoi pŵer tebyg, ond mewn perthynas â chynllun cyflawni addysg Gymraeg a gaiff ei ddiwygio cyn diwedd y cyfnod y mae'r cynllun cyflawni yn cael effaith amdano. | |
| **PAM Y MAE ANGEN Y PŴER/DYLETSWYDD?** | |
| Mae angen y pŵer hwn ar awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod ganddynt yr arfau priodol i ddylanwadu ar gynlluniau cyflawni addysg Gymraeg ysgolion. Gan mai'r awdurdod lleol sy'n cymeradwyo'r cynlluniau cyflawni, os yw'n barnu nad yw cynllun yn gymeradwy mae'n briodol iddo gyfarwyddo'r corff llywodraethu bod angen ei ailystyried.<br><br>Yn unol ag adran 15(6), rhaid i unrhyw gyfarwyddyd roi rhesymau dros wrthod y cynllun cyflawni, a phennu erbyn pryd y mae rhaid i'r corff llywodraethu gyflwyno drafft pellach o'r cynllun cyflawni i'r awdurdod lleol.<br><br>Mae'r awdurdod lleol yn ddarostyngedig i dargedau a osodir arno gan y Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg. Felly, mae'n hollbwysig bod gan yr awdurdod lleol ddylanwad priodol dros gynlluniau cyflawni addysg Gymraeg ysgolion er mwyn sicrhau bod ysgolion yn cynllunio'n effeithiol i sicrhau cynnydd a gwelliant priodol yn addysg Gymraeg ysgolion mae'r awdurdod lleol yn eu cynnal. | |
| **BWRIAD POLISI – SUT Y BWREDIR DEFNYDDIO'R PŴER DIRPWYEDIG?** | |
| Yn ymarferol, mae adran 14(2)(b)(v) yn darparu bod rhaid i'r corff llywodraethu ymgynghori â'r awdurdod lleol sy'n cynnal yr ysgol wrth lunio'r cynllun cyflawni addysg Gymraeg. Gan hynny, bydd yr awdurdod lleol wedi cael cyfle i roi ei farn ar y cynllun cyflawni.<br><br>Y bwriad polisi felly yw na fydd angen defnyddio'r pŵer i wrthod cynllun cyflawni a chyfarwyddo corff llywodraethu i'w ailystyried yn aml iawn. Yn ogystal, caiff awdurdod lleol gymeradwyo cynllun gydag addasiadau a gytunir, ac felly mae hwn hefyd yn gam sy'n lliniaru yn erbyn y tebygolrwydd y bydd angen arfer y pŵer i roi cyfarwyddyd. | |
| **GWYBODAETH BERTHNASOL ERAILL** | |

Mae pwerau tebyg yn adran 32(3)(c) o’r Ddeddf mewn perthynas â Gweinidogion Cymru yn cymeradwyo cynlluniau strategol lleol Cymraeg mewn addysg.

| | |
|---|---|
| **ADRAN** | 20(2), 20(4) |
| **FFURF** | Rheoliadau |
| **DISGRIFIAD O'R RHEOLIADAU** | |
| Mae'r pŵer yn adran 20(2) yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i wneud darpariaeth bellach mewn perthynas â chynlluniau cyflawni addysg Gymraeg ysgolion arbennig cymunedol, gan gynnwys darpariaeth ynghylch y materion a restrir yn adran 20(2)(a)-(d).<br><br>20(4): Mae adran 20(4) yn gosod dyletswydd ar Weinidogion Cymru wneud rheoliadau ynghylch dynodiad categori iaith gwirfoddol ymhlith ysgolion arbennig cymunedol. | |
| **PAM Y MAE ANGEN Y PŴER/DYLETSWYDD?** | |
| Mae'r pŵer i wneud rheoliadau yn adran 20(2) yn bwysig gan ei fod yn caniatáu gwneud darpariaeth bellach ynghylch cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg ysgolion arbennig cymunedol. Mae hyn yn cynnwys ynghylch hyd ac amseriad cynllun, gofynion ymgynghori ar gynllun, trefniadau cymeradwyo cynllun, a threfniadau adolygu a diwygio cynllun. Gallai fod yn briodol i'r darpariaethau ar gyfer ysgolion arbennig cymunedol fod yn wahanol i'r darpariaethau a nodir yn adran 14.<br><br>Mae adran 20(4) yn sicrhau y darperir eglurder i ysgolion arbennig cymunedol ac awdurdodau lleol ynghylch beth yw dynodiad gwirfoddol. | |
| **BWRIAD POLISI – SUT Y BWREDIR DEFNYDDIO'R PŴER DIRPRWYEDIG?** | |
| Bwriedir arfer y pŵer yn adran 20(2) er mwyn rhoi eglurder i ysgolion arbennig cymunedol beth yw'r gofyniad arnynt mewn perthynas â chynllun cyflawni addysg Gymraeg.<br><br>Gan y caniateir dynodiad categori iaith gwirfoddol ymhlith ysgolion arbennig cymunedol, bydd rheoliadau yn manylu hyd a lled dynodiad o'r fath. | |
| **GWYBODAETH BERTHNASOL ARALL** | |
| Dim i'w nodi. | |

| ADRAN | 21(3) |
|---|---|
| **FFURF** | Rheoliadau |
| **DISGRIFIAD O'R RHEOLIADAU** | |
| Mae'r pŵer yn adran 21(3) yn caniatáu i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau i wneud darpariaeth bellach mewn perthynas â chynlluniau cyflawni addysg feithrin Gymraeg, gan gynnwys darpariaeth ynghylch y materion a restrir yn adran 21(3)(a)-(d). | |
| **PAM Y MAE ANGEN Y PŴER/DYLETSWYDD?** | |
| Mae'r pŵer i wneud rheoliadau yn adran 21(3) yn bwysig gan ei fod yn caniatáu gwneud darpariaeth bellach ynghylch cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg ysgolion meithrin a gynhelir. Mae hyn yn cynnwys ynghylch hyd ac amseriad cynllun, gofynion ymgynghori ar gynllun, trefniadau cymeradwyo cynllun, a threfniadau adolygu a diwygio cynllun. | |
| **BWRIAD POLISI – SUT Y BWREDIR DEFNYDDIO'R PŴER DIRPRWYEDIG?** | |
| Bwriedir arfer y pŵer yn adran 21(3) er mwyn rhoi eglurder i ysgolion meithrin a gynhelir beth yw'r gofyniad arnynt mewn perthynas â chynllun cyflawni addysg feithrin Gymraeg. | |
| **GWYBODAETH BERTHNASOL ARALL** | |
| Dim i'w nodi. | |

| ADRAN | 22(1)(d), 22(3) |
|---|---|
| **FFURF** | Rheoliadau |
| **DISGRIFIAD O'R RHEOLIADAU** | |
| Mae'r pŵer yn adran 22(3) yn caniatáu i Weinidogion Cymru lunio rheoliadau i wneud darpariaeth bellach am y gofrestr a gynhelir gan awdurdodau lleol sy'n cynnwys y materion a restrir yn adran 22(1)(a)-(d). O ran 22(1)(d) yn benodol, rhaid i'r awdurdod lleol nodi yn y gofrestr gategori iaith arfaethedig ysgolion arfaethedig nad ydynt wedi eu cynnwys yn y gofrestr o dan baragraff (c) ond sydd o ddisgrifiad a nodir mewn rheoliadau a wneir o dan is-adran (3). Caiff rheoliadau a wneir o dan adran 22(3) wneud darpariaeth bellach yn ymdrin â'r materion sydd i'w cynnwys yn y gofrestr, am ffurf y gofrestr a sut a phryd i'w chyhoeddi. | |
| **PAM Y MAE ANGEN Y PŴER/DYLETSWYDD?** | |
| Mae'r pŵer hwn yn diogelu'r ddyletswydd ar awdurdodau lleol i gynnal cofrestr ar gyfer y dyfodol. Hynny yw, os daw i'r amlwg y byddai'n fuddiol gwneud darpariaeth bellach am y gofrestr, mae hyblygrwydd i Weinidogion Cymru wneud hynny drwy reoliadau. | |
| **BWRIAD POLISI – SUT Y BWREDIR DEFNYDDIO'R PŴER DIRPRWYEDIG?** | |
| Gallai fod yn fuddiol arfer y pŵer yn adran 22(3) i sicrhau bod y gofrestr a gynhelir gan awdurdodau lleol yn cynnwys unrhyw faterion pellach sy'n ddymunol at ddibenion gwireddu polisi'r Ddeddf. Gallai hefyd fod yn ddefnyddiol arfer y pŵer i sicrhau unffurfedd y gofrestr a manylu sut a phryd i'w chyhoeddi fel bod darlun cyson o addysg Gymraeg ar draws pob awdurdod lleol. | |
| **GWYBODAETH BERTHNASOL ARALL** | |
| Dim i'w nodi. | |

## RHAN 4 – CYNLLUNIO ADDYSG A DYSGU CYMRAEG

| | |
|---|---|
| **ADRAN** | 24(10) |
| **FFURF** | Rheoliadau |
| **DISGRIFIAD O'R RHEOLIADAU** | |
| Mae adran 24(10) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru newid yr hyn sy'n ofynnol neu y caniateir ei gynnwys yn y Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg fel a nodir yn adrannau 24(3) – (8). | |
| **PAM Y MAE ANGEN Y PŴER/DYLETSWYDD?** | |
| Mae adran 24(3) i (8) yn cynnwys gofynion o ran yr hyn y mae'n rhaid i Weinidogion Cymru ei nodi a'i gynnwys mewn Fframwaith Cenedlaethol a'r hyn y gellid ei gynnwys. Mae hyn yn cynnwys:<br><br>• nodi'r camau y byddant yn eu cymryd i hybu a hwyluso defnydd o'r Gymraeg gan gynnwys cynyddu a gwella'r ddarpariaeth addysg Gymraeg mewn ysgolion a gynhelir.<br>• nodi'r camau y byddant yn eu cymryd i ddarparu cyfleoedd i bobl o bob oed i ddysgu'r Gymraeg gydol eu hoes: cyn oedran ysgol, mewn gwahanol gamau o'u gyrfaoedd addysg ac yn y gweithle a'r gymuned.<br>• gosod targedau ar awdurdodau lleol sy'n adlewyrchu unrhyw darged cenedlaethol ynghylch a nodir yn strategaeth y Gymraeg yn sgil adran 1(1)(c). Dyma'r targedau sy'n sail i'r hyn y mae'n rhaid i awdurdodau lleol gynnwys yn y Cynlluniau Strategol Lleol Cymraeg mewn Addysg.<br>• asesiad o ran sefyllfa gyfredol y ddarpariaeth o addysg Gymraeg mewn ysgolion ar draws Cymru, a dadansoddiad o'r hyn sydd ei angen o ran addysg Gymraeg ym mhob awdurdod lleol er mwyn cyflawni'r targedau a osodir yn y Fframwaith Cenedlaethol.<br><br>Mae'r pŵer yn adran 24(10) yn rhoi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru amrywio adrannau 24(3) i (8) ynghylch beth ddylai gael neu y gellid ei gynnwys yn y Fframwaith Cenedlaethol, pan fo angen, er mwyn ymateb i sefyllfaoedd newydd all godi yn y dyfodol. Er enghraifft, newidiadau i'r strwythurau presennol ynghylch sut y darperir addysg, newidiadau i'r gofynion ynghylch categorïau iaith ysgolion neu newidiadau eraill mewn cymdeithas na ellir eu rhagweld. | |
| **BWRIAD POLISI – SUT Y BWREDIR DEFNYDDIO'R PŴER DIRPRWYIEDIG?** | |
| Nid oes unrhyw gynlluniau gan Weinidogion Cymru i ddefnyddio'r pŵer hwn ar unwaith. Yn hytrach y bwriad yw bod y pŵer ar gael i Weinidogion er mwyn gallu ei | |

| |
|---|
| ddefnyddio i newid y gofynion ynghylch cynnwys y Fframwaith Cenedlaethol mewn ymateb i sefyllfaoedd newydd fel a ddisgrifir uchod. |
| **GWYBODAETH BERTHNASOL ARALL** |
| Dim i'w nodi. |

| | |
|---|---|
| **ADRAN** | 30(5)(b)(xi) |
| **FFURF** | Rheoliadau |
| **DISGRIFIAD O'R RHEOLIADAU** | |
| Mae adran 30(5)(b)(xi) yn rhoi pwerau i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, ragnodi personau eraill y mae'n rhaid i awdurdod lleol ymgynghori â hwy wrth baratoi cynllun strategol lleol Cymraeg mewn addysg. | |
| **PAM Y MAE ANGEN Y PŴER/DYLETSWYDD?** | |
| Mae'n briodol bod rheoliadau yn caniatáu hyblygrwydd i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth bellach ynghylch personau y dylai awdurdod lleol fod yn ymgynghori â nhw mewn perthynas a'u cynlluniau strategol lleol Cymraeg mewn addysg, er mwyn ymateb i sefyllfaoedd newydd all godi yn y dyfodol e.e. y personau allai fod a chyfraniad i'w wneud neu ddiddordeb strategol yn y maes hwn. | |
| **BWRIAD POLISI – SUT Y BWREDIR DEFNYDDIO'R PŴER DIRPRWYIEDIG?** | |
| Bwriedir arfer y pŵer, petai galw am hynny, i lunio rheoliadau fydd yn gallu rhagnodi personau pellach y mae'n rhaid i awdurdod lleol ymgynghori â nhw. | |
| **GWYBODAETH BERTHNASOL ARALL** | |
| Mae hyn yn adlewyrchu adran 84(4)(f) o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (sy'n cael ei hepgor gan y Ddeddf hon yn sgil darpariaethau Rhan 4). | |

| ADRAN | 31(1)(a) |
|---|---|
| **FFURF** | Rheoliadau |
| **DISGRIFIAD O’R RHEOLIADAU** | |
| Mae adran 31(1)(a) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, bennu dyddiad y mae cyfnod 5 mlynedd cyntaf y cynllun strategol lleol Cymraeg mewn addysg yn cychwyn. | |
| **PAM Y MAE ANGEN Y PŴER/DYLETSWYDD?** | |
| Mae adran 31(1)(a) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru, drwy reoliadau, gyflwyno dyddiad dechrau ar gyfer cyfnod cyntaf y cylch gweithredu 5 mlynedd. Ni fydd y cynlluniau strategol lleol Cymraeg yn cael effaith nes bod y pŵer wedi ei arfer a'r rheoliadau wedi eu gwneud achos dyma sy'n pennu'r dyddiad y mae'r cyfnod cyntaf o 5 mlynedd yn dechrau.<br><br>Mae’n briodol bod Gweinidogion Cymru yn nodi’r dyddiad cychwyn mewn rheoliadau gan fod cyfnod cychwyn cynllun strategol lleol Cymraeg mewn addysg yn ddibynnol ar ddyddiad cyhoeddi’r Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg yn unol ag adran 28(3). Mae dyletswydd ar Weinidogion Cymru dan yr adran honno i osod y Fframwaith Cenedlaethol cyntaf gerbron Senedd Cymru cyn 31 Gorffennaf 2028. Gall, os yw’r amgylchiadau yn caniatáu hynny, gael ei osod yn gynt na hynny. Mae’n briodol felly cynnig hyblygrwydd i bennu’r dyddiad cyntaf ar gyfer cychwyn cynllun strategol lleol Cymraeg mewn addysg mewn is-ddeddfwriaeth. | |
| **BWRIAD POLISI – SUT Y BWREDIR DEFNYDDIO’R PŴER DIRPRWYIEDIG?** | |
| Yn debyg i reoliad 4 Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019, bwriedir pennu dyddiad cychwyn priodol ar gyfer y cyfnod 5 mlynedd cyntaf.<br><br>Y bwriad yw bod pob awdurdod lleol yn gweithredu i’r un amserlen gyda’r cyfnod 5 mlynedd yn cychwyn ar yr un pryd i bob awdurdod lleol. | |
| **GWYBODAETH BERTHNASOL ARALL** | |
| Dim i’w nodi. | |

| | |
|---|---|
| **ADRAN** | 32(3)(c) a 32(4) |
| **FFURF** | Cyfarwyddyd |
| **DISGRIFIAD O'R CYFARWYDDYD** | |
| Mae adran 32(3)(c) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wrthod cynllun strategol lleol Cymraeg mewn addysg a gyflwynir iddynt gan awdurdod lleol, a rhoi cyfarwyddyd i'r awdurdod lleol ailystyried y cynllun. | |
| **PAM Y MAE ANGEN Y PŴER/DYLETSWYDD?** | |
| Mae angen y pŵer hwn ar Weinidogion Cymru er mwyn sicrhau bod ganddynt yr arfau priodol i ddylanwadu ar gynlluniau strategol awdurdodau lleol. Gan mai Gweinidogion Cymru sy'n cymeradwyo'r cynlluniau strategol, os ydynt yn barnu nad yw cynllun yn gymeradwy mae'n briodol iddynt gyfarwyddo'r awdurdod lleol bod angen ei ailystyried (adran 32(3)(c)).<br><br>Yn unol ag adran 32(4), rhaid i unrhyw gyfarwyddyd roi rhesymau dros wrthod y cynllun strategol, a phennu erbyn pryd y mae rhaid i'r awdurdod lleol gyflwyno drafft pellach o'r cynllun strategol i Weinidogion Cymru.<br><br>Bydd Gweinidogion Cymru wedi gosod targedau mewn perthynas ag addysg Gymraeg yn y Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg. Felly, mae'n hollbwysig bod gan Weinidogion Cymru ddylanwad priodol dros gynlluniau strategol awdurdodau lleol er mwyn sicrhau bod awdurdodau lleol yn cynllunio'n effeithiol sut y maent am ddiwallu'r targedau a osodir gan y Fframwaith Cenedlaethol. | |
| **BWRIAD POLISI – SUT Y BWREDIR DEFNYDDIO'R PŴER DIRPRWYIEDIG?** | |
| Y bwriad polisi yw na fydd angen defnyddio'r pŵer i wrthod cynllun strategol a chyfarwyddo awdurdod lleol i'w ailystyried yn aml iawn. Yn ogystal, caiff Gweinidogion Cymru gymeradwyo cynllun strategol gydag addasiadau a gytunir, ac felly mae hwn hefyd yn gam sy'n lliniaru yn erbyn y tebygolrwydd y bydd angen arfer y pŵer i roi cyfarwyddyd. | |
| **GWYBODAETH BERTHNASOL ARALL** | |
| Dim i'w nodi | |

| | |
|---|---|
| **ADRAN** | 34(3) |
| **FFURF** | Cyfarwyddyd |
| **DISGRIFIAD O'R CYFARWYDDYD** | |
| Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i roi cyfarwyddyd i awdurdod lleol ystyried diwygio ei gynllun strategol lleol Cymraeg mewn addysg os yw Gweinidogion Cymru yn ystyried bod yr awdurdod lleol yn annhebygol o gyflawni targed sy'n gymwys iddo yn y Fframwaith Cenedlaethol ar Addysg Gymraeg a Dysgu Cymraeg, a bod angen diwygio'r cynllun o ganlyniad. | |
| **PAM Y MAE ANGEN Y PŴER/DYLETSWYDD?** | |
| Mae'r pŵer hwn yn bwysig i gefnogi proses monitro cynnydd cynlluniau strategol lleol Cymraeg mewn addysg gan gyflwyno gweithdrefn i Weinidogion Cymru ei defnyddio os nad yw'r cynnydd hwnnw yn cael ei ystyried yn ddigonol. | |
| **BWRIAD POLISI – SUT Y BWREDIR DEFNYDDIO'R PŴER DIRPRWYIEDIG?** | |
| Bwriad y pŵer hwn yw galluogi Gweinidogion Cymru i ymateb yn rhagweithiol i achosion lle mae tystiolaeth yn dangos nad yw'r cynllunio a gweithredu lleol yn dangos y cynnydd disgwyliedig. Mae'r pŵer i gyfarwyddo awdurdod lleol i ystyried diwygio ei gynllun hefyd yn cydnabod y gall amgylchiadau y tu hwnt i reolaeth awdurdod lleol effeithio ar ei allu i ymateb i'w dargedau. Dylai unrhyw gyfarwyddyd i awdurdod lleol ystyried diwygio ei gynllun gael ei gefnogi gan drafodaeth yn amlinellu'r rhesymeg dros hynny. Mae'r pŵer yn caniatáu cyfle i'r awdurdod lleol ymateb i'r cyfarwyddyd i ystyried diwygio ei gynllun, a chynnig rheswm dros beidio a gwneud.<br><br>Os yw awdurdod lleol yn penderfynu peidio diwygio ei gynllun a bod Gweinidogion Cymru yn amharod i dderbyn ei resymau dros beidio â gwneud, yna gall hyn arwain at Weinidogion Cymru, mewn rhai amgylchiadau, yn defnyddio eu pwerau o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 sy'n caniatáu i Weinidogion Cymru ymyrryd mewn swyddogaethau addysg mewn amgylchiadau penodol. Gall Gweinidogion Cymru hefyd ofyn i Brif Arolygydd Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru (yn unol â'u pwerau yn adran 38 o'r Ddeddf Addysg 1997) arolygu sut mae'r awdurdod lleol yn perfformio ei swyddogaethau addysg. | |
| **GWYBODAETH BERTHNASOL ARALL** | |
| Dim i'w nodi. | |

| ADRAN | 35(1) a (2) |
|---|---|
| **FFURF** | Rheoliadau |

**DISGRIFIAD O'R RHEOLIADAU**

Mae sylwedd y darpariaethau mewn perthynas a'r cynlluniau strategol lleol Cymraeg mewn addysg (adrannau 30-34) wedi'i nodi ar wyneb y Ddeddf. Mae adran 35(1) yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud rheoliadau sy'n gwneud darpariaeth bellach ynghylch cynlluniau strategol lleol Cymraeg mewn addysg gan gynnwys:

- ffurf a chynnwys cynllun;
- amseriad llunio cynllun;
- y broses ymgynghori wrth lunio cynllun drafft;
- gweithdrefn cymeradwyo cynllun;
- sut a phryd i gyhoeddi cynllun ac
- adrodd ar weithredu'r cynllun, er enghraifft trwy adroddiadau adolygu blynyddol

Mae adran 35(2) yn cyflwyno gwybodaeth bellach o ran beth gall Gweinidogion Cymru ei wneud o dan y pŵer yn adran 35(1). Mae'n nodi y caiff rheoliadau o dan is-adran (1) hefyd wneud darpariaeth i alluogi dau neu ragor o awdurdodau i gynhyrchu cynllun lleol strategol Cymraeg mewn addysg ar y cyd, a chaiff unrhyw reoliadau o'r fath wneud darpariaeth sy'n cymhwyso adrannau 30 i 34 gydag addasiadau at y diben hwnnw.

**PAM Y MAE ANGEN Y PŴER/DYLETSWYDD?**

Mae'n briodol bod rheoliadau yn caniatáu hyblygrwydd i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth bellach ynghylch cynlluniau strategol lleol Cymraeg mewn addysg. Bwriedir hefyd ddefnyddio'r rheoliadau hyn yn rhagnodi materion technegol a gweinyddol.

Gellid defnyddio'r pwerau yma i'w gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol amlygu yn eu cynlluniau sut y mae rhaglenni, polisïau a dyletswyddau statudol ehangach wedi cael eu hystyried wrth geisio cyflawni'r targedau a osodir arnynt, e.e. Asesiadau Digonolrwydd Gofal Plant, rhaglenni blynyddoedd cynnar, cyfalaf ysgolion, trefniadau teithio dysgwyr, adolygiadau i ddarpariaethau anghenion dysgwyr ychwanegol, cynlluniau gweithlu ymysg eraill.

Mae'n briodol felly bod y lefel yma o fanylion yn fater i is-ddeddfwriaeth oherwydd gallent amrywio dros amser.

Mae adran 35(2) yn ei gwneud yn glir bod y pŵer yn adran 35(1) yn ddigon eang i roi hyblygrwydd i Weinidogion amrywio'r gofynion mewn perthynas â'r cynlluniau strategol lleol er mwyn sicrhau'r amgylchiadau gorau i awdurdodau lleol wneud cynnydd yn erbyn eu targedau. Mae cydweithio ar draws ffiniau awdurdod lleol neu'n rhanbarthol eisoes yn gyffredin ymysg awdurdodau lleol e.e. mewn perthynas â threfniadau teithio dysgwyr o'r cartref i'r ysgol. Mae'r pŵer hwn felly yn galluogi

| |
|---|
| Gweinidogion Cymru i gyflwyno trefniadau lle gallai dau neu fwy o awdurdodau lleol gynhyrchu cynllun ar y cyd |
| **BWRIAD POLISI – SUT Y BWREDIR DEFNYDDIO'R PŴER DIRPRWYIEDIG?** |
| Bwriad y rheoliadau o dan adran 35 yw rhoi rhagor o eglurder ynghylch y materion a restrir yn adran 35(1)(a)-(f). Bydd y manylder ynghylch ffurf a chynnwys y cynllun strategol yn sicrhau bod awdurdodau lleol yn deall yr union bethau sy'n ofynnol i'w cynnwys yn eu cynllun strategol, a bydd hyn yn arwain at gynlluniau o arddull cyson ymhlith pob awdurdod lleol. O gofio'r gofyniad i'r Fframwaith Cenedlaethol cyntaf gael ei gyhoeddi cyn 31 Gorffennaf 2028 yn unol ag adran 28(3), bydd angen i'r cynlluniau strategol lleol ymateb i dargedau'r Fframwaith, ac felly bwriadwn y bydd y rheoliadau yn eu lle yn rhoi manylion pellach y cynlluniau strategol mewn da bryd i alluogi i Awdurdodau Lleol i lunio eu cynllun yn fuan ar ôl hynny. Felly, yn ymarferol, bwriedir arfer y pŵer hwn yn y blynyddoedd nesaf. |
| **GWYBODAETH BERTHNASOL ARALL** |
| Mae hyn yn adlewyrchu adran 87(1) i (3) o Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (sy'n cael ei hepgor gan y Ddeddf hon yn sgil darpariaethau Rhan 4). |

## RHAN 5 – YR ATHROFA DYSGU CYMRAEG GENEDLAETHOL

| | |
|---|---|
| **ADRAN** | 40(1) |
| **FFURF** | Rheoliadau |
| **DISGRIFIAD O'R RHEOLIADAU** | |
| Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n rhoi swyddogaethau ychwanegol i'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol mewn perthynas â chefnogi pobl i ddysgu Cymraeg neu hwyluso'u cynnydd. | |
| **PAM Y MAE ANGEN Y PŴER/DYLETSWYDD?** | |
| Er mwyn i'r Ddeddf lwyddo, bydd angen cefnogaeth sefydlog a phriodol i addysg Gymraeg ac i ddysgu'r Gymraeg yn y tymor hir. Mae adran 38 o'r Ddeddf yn sefydlu corff newydd yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol, ac mae adran 39 yn manylu ar yr hyn y mae'n rhaid i'r Athrofa ei wneud, a'r hyn y caiff ei wneud. Mae adrannau 41-44 hefyd yn manylu ar bethau y mae rhaid i'r Athrofa eu gwneud wrth arfer ei swyddogaethau. Er bod y Ddeddf yn amlinellu cylch gwaith yr Athrofa mewn manylder, mae hefyd yn bosibl i amgylchiadau newid. Gallai hyn olygu bod angen ychwanegu at swyddogaethau'r Athrofa yn y dyfodol fac mae'r pŵer yn adran 40(1) yn rhoi'r hyblygrwydd i Weinidogion Cymru wneud hynny drwy reoliadau. | |
| **BWRIAD POLISI – SUT Y BWREDIR DEFNYDDIO'R PŴER DIRPRWYIEDIG?** | |
| Gan fod cryn fanylder am swyddogaethau'r Athrofa ar wyneb y Ddeddf, nid oes bwriad yn y tymor byr i lunio rheoliadau yn ychwanegu swyddogaethau pellach. Fodd bynnag, gallai fod yn briodol arfer y pŵer hwn i ychwanegu at swyddogaethau'r Athrofa er enghraifft pe bai newidiadau i rolau a chyfrifoldebau cyrff eraill, neu pe bai argymhellion sy'n seiliedig ar dystiolaeth yn awgrymu y dylai'r Athrofa ysgwyddo cyfrifoldebau ychwanegol. | |
| **GWYBODAETH BERTHNASOL ARALL** | |
| Dim i'w nodi. | |

| | |
|---|---|
| **ADRAN** | 46(8)(a); 46(8)(b). |
| **FFURF** | Rheoliadau |
| **DISGRIFIAD O'R RHEOLIADAU** | |
| Mae'r pwerau hyn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau yn manylu ar gyfnod cynllunio mewn perthynas â chynllun strategol yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol. Mae'r pwerau yn galluogi Gweinidogion Cymru:<br>• i bennu'r cyfnod cynllunio cyntaf ar gyfer yr Athrofa (46(8)(a)); ac<br>• i ddiwygio'r cyfnod dilynol o 3 blynedd a nodir yn y Ddeddf (46(8)(b)). | |
| **PAM Y MAE ANGEN Y PŴER/DYLETSWYDD?** | |
| Mae'r rhain yn briodol i'w cynnwys mewn rheoliadau i roi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru bennu'r cyfnodau cynllunio ar gyfer yr Athrofa yn ôl yr angen. | |
| **BWRIAD POLISI – SUT Y BWREDIR DEFNYDDIO'R PŴER DIRPRWYIEDIG?** | |
| Mae sylwedd y ddarpariaeth hon wedi'i nodi ar wyneb y Ddeddf. Bydd y rheoliadau yn rhagnodi materion technegol a gweinyddol.<br><br>Bwriedir defnyddio'r pŵer o dan adran 46(8)(a) er mwyn pennu cyfnod cynllunio cyntaf yr Athrofa. | |
| **GWYBODAETH BERTHNASOL ARALL** | |
| Dim i'w nodi. | |

| | |
|---|---|
| **ADRAN** | Atodlen 2, paragraff 2(4). |
| **FFURF** | Rheoliadau |

**DISGRIFIAD O'R RHEOLIADAU**

Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n amrywio nifer yr aelodau ar gyfer yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol.

Bydd y pŵer yn caniatáu i Weinidogion newid nifer yr aelodau anweithredol a gweithredol fel bo'r angen ond rhaid iddynt sicrhau bod nifer yr aelodau anweithredol yn uwch na nifer yr aelodau gweithredol.

**PAM Y MAE ANGEN Y PŴER/DYLETSWYDD?**

Gall amgylchiadau newid sy'n golygu bod angen addasu neu ychwanegu at gylch gwaith yr Athrofa yn y dyfodol. Bydd y pŵer hwn yn rhoi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru gynyddu neu gwtogi ar nifer yr aelodau fel bo'r angen.

**BWRIAD POLISI – SUT Y BWREDIR DEFNYDDIO'R PŴER DIRPRWYIEDIG?**

Gellir rhagweld defnyddio'r pŵer hwn mewn ymateb i arfer y pŵer i wneud rheoliadau sy'n rhoi swyddogaethau ychwanegol i'r Athrofa o dan adran 40(1). Er enghraifft, pe bai angen i Weinidogion roi swyddogaethau atodol i'r Athrofa, gallai'r pŵer o dan baragraff 2(4) o Atodlen 2 gael ei ddefnyddio i gynyddu nifer yr aelodau pe byddai angen hynny er mwyn galluogi i'r Athrofa arfer ei swyddogaethau atodol.

**GWYBODAETH BERTHNASOL ARALL**

Dim i'w nodi.

| | |
|---|---|
| **ADRAN** | Atodlen 2, paragraff 3(f). |
| **FFURF** | Rheoliadau |
| **DISGRIFIAD O'R RHEOLIADAU** | |
| Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu mewn rheoliadau ddeiliad swydd neu aelod corff neu aelod o staff corff sydd wedi ei anghymwyso rhag bod yn aelod anweithredol o'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol. | |
| **PAM Y MAE ANGEN Y PŴER/DYLETSWYDD?** | |
| Mae rhestr o bersonau sydd wedi'u hanghymwyso rhag bod yn aelod anweithredol o'r Athrofa wedi'u henwi ar wyneb y Ddeddf (Atodlen 2, paragraff 3(a)-(f)). Mae'n bwysig bod Gweinidogion Cymru yn gallu ychwanegu at y rhestr hon os oes angen.<br><br>Bydd y pŵer yn caniatáu'r hyblygrwydd i Weinidogion Cymru ychwanegu at y personau sydd wedi eu hanghymhwyso fel bo'r angen. | |
| **BWRIAD POLISI – SUT Y BWREDIR DEFNYDDIO'R PŴER DIRPRWYIEDIG?** | |
| Pe bai newidiadau i rolau a chyfrifoldebau cyrff eraill sy'n achosi gwrthdaro buddiannau arwyddocaol neu, er enghraifft, os oes corff newydd perthnasol yn cael ei sefydlu, gellir defnyddio'r pŵer hwn i ychwanegu at y rhestr o bersonau sydd wedi'u hanghymwyso. | |
| **GWYBODAETH BERTHNASOL ARALL** | |
| Dim i'w nodi. | |

| | |
|---|---|
| **ADRAN** | Atodlen 2, paragraff 9(4) a 9(5). |
| **FFURF** | Cyfarwyddyd |
| **DISGRIFIAD O'R CYFARWYDDYD** | |
| Mae'r pwerau hyn yn galluogi'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol bennu mewn cyfarwyddyd y swyddogaethau na chaiff pwyllgor neu is-bwyllgor o'r Athrofa eu dirprwyo. Mae hefyd yn galluogi'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol i gyfarwyddo pwyllgor neu is-bwyllgor i amrywio neu ddirymu unrhyw ddirprwyaeth a bennir yn y cyfarwyddyd, ac i gyfarwyddo pwyllgor i amrywio neu ddirymu unrhyw gyfarwyddyd a roddwyd gan y pwyllgor.<br><br>Rhoddir bwerau i bwyllgorau'r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol roi cyfarwyddyd i is-bwyllgorau ynghylch peidio dirprwyo swyddogaethau, yn ogystal â chyfarwyddo'r is-bwyllgor i amrywio neu ddirymu dirprwyaeth a wnaed gan yr is-bwyllgor. | |
| **PAM Y MAE ANGEN Y PŴER/DYLETSWYDD?** | |
| Mae pwerau dirprwyo swyddogaethau gan yr Athrofa, ei phwyllgorau a'i his-bwyllgorau. Caniateir dirprwyo pwerau i bwyllgorau, is-bwyllgorau, i aelodau neu i staff. Mae'r pwerau cyfarwyddo yn rhoi hyblygrwydd i'r Athrofa a'i phwyllgorau a'i his-bwyllgorau reoli, drwy gyfarwyddyd, sut y mae'r swyddogaethau yn cael eu harfer. | |
| **BWRIAD POLISI – SUT Y BWREDIR DEFNYDDIO'R PŴER DIRPRWYIEDIG?** | |
| Bydd trefniadau llywodraethu a'r gyfundrefn reolaeth fewnol yn fater yn bennaf i aelodau'r Athrofa. Bydd disgwyl i'r Athrofa roi cyfarwyddyd i bwyllgor neu is-bwyllgor cyn gynted ag y bo'n rhesymol ymarferol a sicrhau bod unrhyw gyfarwyddyd yn cael ei adolygu, a'i ddiwygio neu ei ddiddymu os oes angen. | |
| **GWYBODAETH BERTHNASOL ARALL** | |
| Dim i'w nodi. | |

| | |
|---|---|
| **ADRAN** | Atodlen 2, paragraff 10. |
| **FFURF** | Rheolau |
| **DISGRIFIAD O’R RHEOLAU** | |
| Mae’r paragraff hwn yn ei gwneud hi’n ofynnol i’r Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol wneud rheolau i reoleiddio ei gweithdrefn ei hun. Mae’n rhaid i’r Athrofa wneud rheolau sy’n:<br>• pennu lleiafswm yr aelodau y mae'n rhaid iddynt fod yn bresennol yn unrhyw un o'i chyfarfodydd i wneud trafodion y cyfarfod hwnnw'n ddilys;<br>• darparu nad yw cyfarfod o’r Athrofa yn ffurfio cworwm oni bai bod mwyafrif yr aelodau sy’n bresennol yn aelodau anweithredol<br>• rheoleiddio gweithdrefn ei phwyllgorau a’i his-bwyllgorau.<br>Caiff yr Athrofa, ei phwyllgorau a’i his bwyllgorau hefyd bennu eu gweithdrefn eu hunain yn ddarostyngedig i unrhyw reolau a wneir gan yr Athrofa o dan is-baragraff (3) i reoleiddio gweithdrefn ei phwyllgorau a’i his-bwyllgorau. | |
| **PAM Y MAE ANGEN Y PŴER/DYLETSWYDD?** | |
| Bydd y rheolau yn galluogi’r Athrofa roi gweithdrefn llywodraethu a chyfundrefn reolaeth fewnol yn eu lle. Mae’r manylion hyn yn addas i’w cynnwys mewn rheolau i roi hyblygrwydd i’r Athrofa newid y cynnwys fel bo angen. | |
| **BWRIAD POLISI – SUT Y BWREDIR DEFNYDDIO’R PŴER DIRPRWYIEDIG?** | |
| Bydd trefniadau rheoleiddio mewnol yn fater yn bennaf i’r Athrofa. Bydd disgwyl i’r Athrofa wneud rheolau cyn gynted ag y bo’n rhesymol ymarferol a sicrhau bod unrhyw drefniadau yn cael eu hadolygu, a’u diwygio neu eu diddymu os oes angen. | |
| **GWYBODAETH BERTHNASOL ARALL** | |
| Dim i’w nodi. | |

| | |
|---|---|
| **ADRAN** | Atodlen 2, paragraff 16. |
| **FFURF** | Cyfarwyddyd |

**DISGRIFIAD O'R CYFARWYDDYD**

Mae'n rhoi pŵer i Weinidogion Cymru roi cyfarwyddyd o ran yr wybodaeth sydd i'w chynnwys yn natganiad o gyfrifon yr Athrofa Dysgu Cymraeg Genedlaethol ar gyfer pob blwyddyn ariannol, y modd mae'r wybodaeth i'w chyflwyno a'r dulliau a'r egwyddorion y mae'r datganiad i'w lunio yn unol â hwy. Bydd y cyfarwyddyd hefyd yn galluogi Gweinidogion Cymru i bennu unrhyw wybodaeth ychwanegol sydd i fynd gyda'r datganiad.

**PAM Y MAE ANGEN Y PŴER/DYLETSWYDD?**

Bydd yr Athrofa yn derbyn cyllid gan Weinidogion Cymru ac yn atebol i Weinidogion am y gwariant hwnnw. Bydd dyletswydd ar yr Athrofa i gadw cyfrifon priodol a llunio datganiad o gyfrifon ar gyfer pob blwyddyn ariannol.

Bernir bod y manylion ar gyfer y datganiad o gyfrifon yn addas i'w cynnwys mewn cyfarwyddydau i roi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru newid y cynnwys fel bo angen.

**BWRIAD POLISI – SUT Y BWREDIR DEFNYDDIO'R PŴER DIRPRWYIEDIG?**

Bwriedir cyhoeddi'r cyfarwyddyd cyn gynted ac y bo'n rhesymol ymarferol, gan sicrhau bod y cyfarwyddyd yn cael ei adolygu, a'i ddiweddaru os oes angen, o leiaf 6 mis cyn cychwyn pob blwyddyn ariannol.

**GWYBODAETH BERTHNASOL ARALL**

Dim i'w nodi.

## RHAN 6 - CYFFREDINOL

| | |
|---|---|
| **ADRAN** | 48(2) |
| **FFURF** | Canllaw |
| **DISGRIFIAD O'R GORCHYMYN CYCHWYN** | |
| Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru ddyroddi canllawiau i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgol am eu swyddogaethau o dan y Ddeddf. | |
| **PAM Y MAE ANGEN Y PŴER/DYLETSWYDD?** | |
| Mae'r Ddeddf yn rhoi nifer o swyddogaethau i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgol. Bwriad y pŵer hwn yw i alluogi Gweinidogion Cymru i baratoi canllawiau, fel bo'r angen yn codi, er mwyn sicrhau bod yr awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgol â dealltwriaeth o sut y maent i arfer eu swyddogaethau o dan y Ddeddf. Rhaid i'r awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu ysgol roi sylw i'r canllawiau hynny. | |
| **BWRIAD POLISI – SUT Y BWREDIR DEFNYDDIO'R PŴER DIRPRWYIEDIG?** | |
| Y bwriad polisi yw y bydd Gweinidogion Cymru yn paratoi canllawiau cyn i'r Ddeddf, a'r is-ddeddfwriaeth o dan y Ddeddf, gael eu rhoi ar waith. Ymhlith pethau eraill, bwriedir i ganllawiau gael eu paratoi ynghylch:<br>• categorïau iaith ysgolion;<br>• cynlluniau cyflawni addysg Gymraeg ysgolion;<br>• cynlluniau strategol lleol Cymraeg mewn addysg. | |
| **GWYBODAETH BERTHNASOL ARALL** | |
| Ar hyn o bryd, cyn cyflwyno'r Ddeddf, mae canllawiau yn bodoli ynghylch y categorïau iaith anstatudol yn ogystal a chanllawiau ynghylch cynlluniau strategol Cymraeg mewn addysg awdurdodau lleol o dan Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013. Bydd y canllawiau hynny yn dod i ben pan fydd darpariaethau'r Ddeddf yn dod i rym. | |

| | |
|---|---|
| **ADRAN** | 55(1) |
| **FFURF** | Rheoliadau |
| **DISGRIFIAD O'R RHEOLIADAU** | |
| Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru wneud darpariaeth sy'n ddeilliadol neu'n atodol i unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf neu sy'n ganlyniadol i unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf a gwneud darpariaeth drosiannol, darpariaeth ddarfodol neu ddarpariaeth arbed mewn cysylltiad ag unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf. Mae hyn yn cynnwys diwygio, diddymu neu ddirymu unrhyw ddeddfwriaeth sylfaenol neu is-ddeddfwriaeth (gan gynnwys unrhyw ddarpariaeth yn y Ddeddf) cyn belled a'u bod yn ymwneud ag un o'r darpariaethau uchod. | |
| **PAM Y MAE ANGEN Y PŴER/DYLETSWYDD?** | |
| Bwriad y pŵer hwn yw galluogi Gweinidogion Cymru i wneud newidiadau dros amser, i sicrhau bod y Ddeddf yn cydweithio gyda deddfau eraill. Mae'n briodol, felly, rhoi hyblygrwydd i Weinidogion Cymru i allu gwneud hynny drwy reoliadau. | |
| **BWRIAD POLISI – SUT Y BWREDIR DEFNYDDIO'R PŴER DIRPRWYIEDIG?** | |
| Bydd Gweinidogion Cymru yn ystyried arfer y pŵer hwn yng nghyd-destun gorchmynion cychwyn. | |
| **GWYBODAETH BERTHNASOL ARALL** | |
| Dim i'w nodi. | |

| | |
|---|---|
| **ADRAN** | 56(4) |
| **FFURF** | Gorchymyn Cychwyn |

**DISGRIFIAD O'R GORCHYMYN CYCHWYN**

Mae'r adran hon yn rhoi pŵer i Weinidogion Cymru gychwyn darpariaethau'r Ddeddf drwy orchymyn.

**PAM Y MAE ANGEN Y PŴER/DYLETSWYDD?**

Mae adran 56(1) yn darparu pa adrannau sy'n dod i rym drannoeth y diwrnod y caiff y Ddeddf y Cydsyniad Brenhinol, tra bod adran 56(2) yn darparu pa adrannau sy'n dod i rym dau fis ar ôl i'r Ddeddf dderbyn Cydsyniad Brenhinol. Mae adran 56(3) yn pennu bod Rhan 5 ac Atodlen 2 yn dod i rym ar 1 Awst 2027. Daw adrannau eraill, gan gynnwys adran 49 sy'n darparu ar gyfer diddymu darpariaethau yn Neddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013, i rym ar ddiwrnod a bennir gan Weinidogion Cymru drwy arfer y pŵer hwn i wneud gorchymyn.

Mae'n addas cychwyn darpariaethau drwy orchymyn gan y bydd angen sicrhau bod trefniadau gweithredu ar waith cyn i'r adrannau ddod i rym. Er enghraifft, bydd rhaid i'r Cod ar gyfer disgrifio gallu yn y Gymraeg fod wedi ei chyhoeddi cyn y gellir cychwyn adrannau sy'n ddibynnol ar fodolaeth y Cod.

**BWRIAD POLISI – SUT Y BWREDIR DEFNYDDIO'R PŴER DIRPRWYIEDIG?**

Y bwriad polisi yw bod Gweinidogion Cymru yn cychwyn darpariaethau'r Ddeddf dros amser mewn modd sy'n galluogi i drefniadau gweithredu gael eu rhoi ar waith cyn iddynt ddod i rym. Gan fod sawl darpariaeth yn gyd-ddibynnol ar ei gilydd, rhaid iddynt ddod i rym ar amseriad priodol drwy orchymyn cychwyn.

**GWYBODAETH BERTHNASOL ARALL**

Dim i'w nodi.